



Regional Learning Partnership Partneriaeth Ddysgu Ranbarthol

South West & Central Wales
De-Orllewin a Canolbarth Cymru



Ariennir yn Rhannol gan
Lywodraeth Cymru
Part Funded by
Welsh Government

Dadansoddiad o'r Gweithlu ar gyfer Ysgolion yn ERW



Ein Rhanbarth ar Waith
Education through Regional Working

Cynghrair o 6 awdurdod lleol yw ERW a reolir gan gyd-bwyllgor cyfansoddiadol cyfreithiol.
Y nod yw gweithredu strategaeth a chynllun busnes rhanbarthol cytunedig a chefnogi gwelliant ysgolion.

ERW is an alliance of 6 local authorities governed by a legally constituted joint committee.
Its aim is to implement the agreed regional strategy and business plan to support school improvement.





Regional Learning Partnership Partneriaeth Ddysgu Ranbarthol

South West & Central Wales
De-Orllewin a Canolbarth Cymru

Prif Awdur:

Rachel Rees

(Ymchwilydd Partneriaeth Dysgu
Rhanbarthol)

Partneriaeth Dysgu Rhanbarthol – De-orllewin a Chanolbarth Cymru

Regional Learning Partnership – South West & Central Wales

Canolfan Adnoddau Busnes, Parc Amanwy, Heol Newydd,

Rhydaman, Sir Gaerfyrddin, SA18 3EP


01554 742430 | www.rlp.org.uk

Newid Proffil Swydd: Astudiaethau Achos

Fel rhan o'r ymchwil hon, ymgwymerodd staff ERW ag arolwg i ganfod y mathau gwahanol o lwybrau gyrfa oedd ar gael yn y gweithlu addysg. Er enghraifft, mae rhai staff yn gadael amgylchedd yr ysgol draddodiadol i ennill sgiliau a fyddai'n gwella'u rhagolygon o gael swydd uwch yn hierarchaeth yr ysgol. I ddilyn, ceir pedair astudiaeth achos yn amlinellu cefndir a phrofiad blaenorol staff ERW, ynghyd â'r sgiliau y maent wedi'u hennill a'r swydd y gallent o bosibl ei hennill yn dilyn eu cyflogaeth yn ERW.

Astudiaeth Achos 1

Ffigur 7: Astudiaeth Achos 1 Camu Ymlaen yn Eich Gyrfa



Swydd Barhaol: Pennaeth Saesneg, Ysgol Gyfun Dŵr y Felin, Castell-nedd

Swydd Bresennol: Arweinydd Dysgu ar gyfer Saesneg, ERW

Cwestiwn 1: Beth yw eich cefndir/profiad blaenorol?

Dirprwy Bennaeth Saesneg, Ysgol Gyfun Treforys 1996-2005

Pennaeth Saesneg yn Ysgol Dŵr y Felin 2005-2014

Cwestiwn 2: Pa sgiliau ydych chi'n eu hennill yn ERW a fydd o gymorth yn eich swydd nesaf?

Rwy'n profi amrywiaeth o amgylcheddau ysgol ac yn cwrdd ag Uwch Dimau Arwain ac adrannau Saesneg. Rwy'n datblygu'r sgiliau priodol i gefnogi a herio'r ysgolion/adrannau hyn er mwyn sicrhau cynnydd yng Nghyfnod Allweddol 4.

Trwy'r rôl hon, rwyf wedi gallu gwasanaethu amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd megis Penaethiaid Saesneg, Llywodraeth Cymru a Phenathiaid Ysgol.

Ar hyn o bryd, rwyf hefyd yn ddirprwy arweinydd y prosiect TGAU yn ERW, ac felly rwy'n rheolwr llinell ar dîm o Arweinwyr Dysgu.

Cwestiwn 3: Pa swydd y byddwch yn dychwelyd iddi (os yn wahanol i'ch Swydd Barhaol)?

Ar hyn o bryd, byddaf yn dychwelyd i fy rôl fel Pennaeth Saesneg yn Ysgol Dŵr y Felin.

Cwestiwn 4: A yw'r profiad a gawsoch yn ERW wedi helpu eich rhagolygon/llwybr gyrfa?

Ydy. Bellach, mae gen i brofiad o weithio gydag Uwch Dimau Rheoli mewn amrywiaeth o ysgolion Uwchradd ar hyd a lled ERW. Mae hyn wedi fy ngalluogi i ddeall y ffordd y mae'r timau hyn yn gweithio ac i adnabod yr heriau a ddaw yn sgil rhedeg ysgolion Uwchradd.


Trwy'r rôl hon, cefais y profiad o roi cyflwyniad mewn amryw o wahanol sefyllfaoedd, gan gynnwys cynhadledd genedlaethol.

Cwestiwn 5: Pa swyddi a fyddai'n bosibl i chi eu cael yn y dyfodol yn dilyn eich swydd yn ERW?

- Pennaeth Cynorthwyol/Dirprwy Bennaeth
- Rhagor o waith ym maes gwella ysgolion: Ymgynghorydd Her, Arweinydd Rhanbarthol ar gyfer TGAU Saesneg
- Swyddog Pwnc CBAC

Astudiaeth Achos 2

Ffigur 8: Astudiaeth Achos 2 Camu Ymlaen yn Eich Gyrfa



Swydd Barhaol: Pan gefais fy secondio (Ail yn yr Adran Mathemateg). Yn ddiweddar, cefais fy mhenodi yn Bennaeth Cynorthwyol.

Swydd Bresennol: Arweinydd Dysgu, ERW

Cwestiwn 1: Beth yw eich cefndir/profiad blaenorol?

Roeddwn i'n athro Uwchradd Mathemateg ac yn Gydgysylltydd Rhifedd ac yn Ail yn yr Adran.

Cefais fy secondio'r llynedd yn Arweinydd ar gyfer Dysgu yn ERW, ac o ganlyniad rwyf wedi cael fy mhenodi yn Bennaeth Cynorthwyol.

Cwestiwn 2: Pa sgiliau ydych chi'n eu hennill yn ERW a fydd o gymorth yn eich swydd nesaf?

Roedd y sgiliau a enillais y llynedd yn amhrisiadwy o ran cefnogi fy nghais llwyddiannus i fod yn Bennaeth Cynorthwyol a hynny mor gynnar yn fy ngyrfa.

Roedd modd imi ddatblygu fy nealltwriaeth o faterion ysgol cyfan, hyrwyddo gwelliant yn yr ysgol a datblygu fy ngallu i herio a chefnogi pobl ac ysgolion yn effeithiol.

Cwestiwn 3: Pa swydd y byddwch chi'n dychwelyd iddi (os yn wahanol i'ch Swydd Barhaol)?

Byddwn wedi dychwelyd i'r ysgol yn Ail yn yr Adran, ond o ganlyniad i fy rôl gydag ERW, cefais fy mhenodi yn Bennaeth Cynorthwyol.

Cwestiwn 4: A yw'r profiad a gawsoch yn ERW wedi helpu eich rhagolygon/llwybr gyrfa?


Yn ddi-os, fy mhrofiad gydag ERW oedd y prif reswm dros lwyddiant fy nghais i ddod yn Bennaeth Cynorthwyol. Roeddwn i'n gallu arddangos yr wybodaeth eang a ddysgais yn y swydd a gwnaeth hynny wella fy nealltwriaeth o rôl Arweinyddiaeth Uwch wrth wella ysgolion.

Cwestiwn 5: Pa swyddi a fyddai'n bosibl i chi eu cael yn y dyfodol yn dilyn eich swydd yn ERW?

O hyn ymlaen, gallwn edrych am swydd fel Dirprwy Bennaeth, Pennaeth neu Swyddog Gwella Ysgolion.

Astudiaeth Achos 3

Ffigur 9: Astudiaeth Achos 3 Camu Ymlaen yn Eich Gyrfa



Swydd Barhaol: Ymgynghorydd Her

Swydd Bresennol: Ymgynghorydd Her ac Arweinydd Rhanbarthol ar gyfer Llythrennedd a Rhifedd

Cwestiwn 1: Beth yw eich cefndir/profiad blaenorol?

Roeddwn i'n Athro Uwchradd Mathemateg. Ar ôl dwy flynedd, cefais fy nyrchafu i fod yn Bennaeth Mathemateg ac ymhen amser, roeddwn i'n aelod o'r Uwch Dîm Arwain fel Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yn fy ysgol.

Trwy'r rôl hon, cefais fy secondio yn Athro Ymgynghorol ar gyfer Mathemateg a Rhifedd, a blwyddyn yn ddiweddarach, fy nyrchafu yn Arweinydd Systemau ar gyfer Mathemateg a Rhifedd.

Y llynedd, cefais fy secondio yn Arweinydd Rhanbarthol ar gyfer Llythrennedd a Rhifedd gan arwain y prosiect TGAU newydd ledled y rhanbarth. Yn ddiweddar, fe lwyddais yn fy nghais i ddod yn Ymgynghorydd Her.

Cwestiwn 2: Pa sgiliau ydych chi'n eu hennill yn ERW a fydd o gymorth yn eich swydd nesaf?

Mae fy rôl strategol ranbarthol yn arwain llythrennedd a rhifedd wedi rhoi cyfoeth o wybodaeth i mi am reoli pobl a gweithredu systemau llwyddiannus. Mae'r Rheolwr Gyfarwyddwr wedi bod yn fentor gwerthfawr iawn ac wedi fy nghefnogi i gynyddu fy ngwybodaeth am wella ysgolion hyd yn oed ymhellach.

Mae rôl yr Arweinydd Rhanbarthol ar gyfer Llythrennedd wedi rhoi, ac yn parhau i roi, cyfle gwerthfawr i mi arwain yn strategol ac wedi rhoi mantais enfawr i mi wrth wneud cais am

swydd Ymgynghorydd Her. Rwyf hefyd wedi bod yn lwcus i weithio ar sail genedlaethol, gan weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru sydd hefyd wedi fy nghefnogi i ddatblygu fy ngwybodaeth a'm sgiliau.

Cwestiwn 3: Pa swydd y byddwch chi'n dychwelyd iddi (os yn wahanol i'ch Swydd Barhaol)?

Erbyn hyn, rwy'n gweithio fel Ymgynghorydd Her ac Arweinydd Rhanbarthol ar gyfer Llythrennedd a Rhifedd.

Cwestiwn 4: A yw'r profiad a gawsoch yn ERW wedi helpu eich rhagolygon/llwybr gyrfa?

Yn ddi-os, mae'r sgiliau a'r wybodaeth a enillais wedi dylanwadu ar fy ngyrfa. Mae wedi fy arwain at ddod yn Ymgynghorydd Her ar gyfer ysgolion a bydd y sgiliau yr wyf wedi'u datblygu yn siŵr o wella fy ngallu i gyflawni'r rôl hon yn llwyddiannus.


Mae cael cyfle i ddod yn Arolygydd Tîm gydag Estyn hefyd wedi bod o gymorth yn y rôl hon.

Cwestiwn 5: Pa swyddi a fyddai'n bosibl i chi eu cael yn y dyfodol yn dilyn eich swydd yn ERW?

Yn y dyfodol, gallwn edrych am swydd fel Uwch Ymgynghorydd Her neu Bennaeth Hwb.

Astudiaeth Achos 4

Ffigur 10: Astudiaeth Achos 4 Camu Ymlaen yn Eich Gyrfa



Swydd Barhaol: Pennaeth Mathemateg, Ysgol Gymunedol Cefn Hengoed

Swydd Bresennol: Arweinydd Dysgu ERW ar gyfer Mathemateg

Cwestiwn 1: Beth yw eich cefndir/profiad blaenorol?

Pennaeth Mathemateg, Medi 2010 - Medi 2014, Ysgol Gymunedol Cefn Hengoed

Ail yn yr Adran Mathemateg a Chydgysylltydd Rhifedd, Medi 2006 - Medi 2010, Ysgol Gymunedol Cefn Hengoed

Athro Mathemateg, Medi 2004 - Medi 2006, Ysgol Gymunedol Cefn Hengoed

Athro Mathemateg, Tachwedd 2003 - Medi 2004, Ysgol Gyfun Treforys

Mentor Ceiswyr Sgiliau, Mehefin 2003 - Tachwedd 2003, Coleg Abertawe

Lleoliadau Addysgu:

Hydref 2001 – Gorffennaf 2002

- Ysgol Gyfun Llandeilo Ferwallt, Y Glebe, Llandeilo Ferwallt, Abertawe
- Ysgol Gyfun Cefn Saeson, Heol Cwm Afan, Cimla, Castell-nedd

Cwestiwn 2: Pa sgiliau yr ydych yn eu hennill yn ERW a fydd o gymorth yn eich swydd nesaf?

Mae'r sgiliau a'r profiadau canlynol yn cael eu datblygu:

- Profiad o arwain ehangach ar lefel ranbarthol
- Cyfathrebu ag amrywiaeth o weithwyr proffesiynol addysgol a gweithio ochr yn ochr â nhw er mwyn meithrin perthynas waith gref ac effeithiol
- Cydweithio mewn partneriaeth ag Ymgynghorwyr Her, Arweinwyr Dysgu, Arweinwyr Prosiect a chynrychiolwyr ERW
- Datblygu cysylltiadau proffesiynol ar hyd a lled rhanbarth ERW a Chymru
- Gweithio ar y cyd gyda CBAC
- Gweithio ochr yn ochr gyda chynrychiolwyr o gonsortia rhanbarthol eraill ledled Cymru
- Trefnu a chyflwyno hyfforddiant e.e. HMS ar gyfer Penaethiaid Adran a digwyddiadau hyfforddi rhanbarthol
- Cyflwyno mewn digwyddiadau cenedlaethol e.e. Cynhadledd Mathemateg am Oes, Cymdeithas Ysgolion Dros Addysg Gymraeg (CYDAG)
- Datblygu gwybodaeth ac arbenigedd manwl am fanylebau newydd TGAU
- Gwybodaeth am weithio'n rhanbarthol a mentrau gwella ysgolion
- Gwaith ysgol-i-ysgol
- Categoriadau adrannau a'r defnydd o ddata cenedlaethol
- Cynnal adolygiadau adrannol
- Arsylwi gwersi, craffu ar waith a chynnal adolygiadau ar draws meysydd a chyfnodau pwnc y tu allan i'r arbenigedd sy'n bodoli ym maes mathemateg uwchradd
- Ychwanegu capasiti i Ymweliadau Craidd Tymor yr Hydref
- Aelod o TGCh ERW ar gyfer Gweithgor Dysgu/Llythrennedd Digidol
- Aelod o Weithgor Mathemateg Llywodraeth Cymru
- Ymweld ag ysgolion, darparu her a gweithredu cymorth a hyfforddiant pwrpasol (gan gynnwys cefnogi arweinyddiaeth, addysgu a dysgu, tracio, defnyddio data, cofrestru a pharatoi ar gyfer arholiadau, asesu)
- Datblygu addysgu a dysgu mewn grwpiau o dri, a'r dull astudio gwersi

- Modelu gwersi rhagorol
- Cynhyrchu adnoddau, cynlluniau gwaith ac asesu deunyddiau ar gyfer eu defnyddio ar draws y rhanbarth
- Cynhyrchu rhaglen hyfforddi chwe awr i'w defnyddio ar draws y rhanbarth
- Mwy o wybodaeth am PISA a Llythrennedd Mathemategol
- Defnyddio dull ERW ar gyfer arsylwi gwersi a chraffu gwaith
- Ysgrifennu adroddiadau (ymweliadau ysgol, datganiadau o fwriad ac adroddiadau effaith) gan ddefnyddio arddull ysgrifennu Estyn
- Cynnal gweithgorau
- Cwblhau'r Rhaglen Athrawon Rhagorol a'r Rhaglen Hwyluswyr Rhagorol
- Cyflwyno rhan gyntaf y Rhaglen Athrawon Rhagorol yng Ngheredigion
- Aelod o'r grŵp sy'n gweithio ar ddeunyddiau gwirio ar gyfer asesu ar hyd a lled Cymru

Cwestiwn 3: Pa swydd y byddwch chi'n dychwelyd iddi (os yn wahanol i'ch Swydd Barhaol)?

Os byddaf yn dychwelyd i'r ysgol, byddaf yn ailafael â'r un swydd yno.

Cwestiwn 4: A yw'r profiad a gawsoch yn ERW wedi helpu eich rhagolygon/llwybr gyrfa?

Gweler y sgiliau a'r profiadau a restrwyd yng Nghwestiwn 2.

Cwestiwn 5: Pa swyddi a fyddai'n bosibl i chi eu cael yn y dyfodol yn dilyn eich swydd yn ERW?

- Pennaeth Cynorthwyol
- Dirprwy Bennaeth
- Ymgynghorydd Her
- Ymgynghorydd Mathemateg

Mae dadansoddiad o'r astudiaethau achos yn dangos bod y swyddi/secondiadau yn ERW wedi gwella sgiliau'r cyfranogwyr a'u galluogi i ystyried gwneud cais am naill ai swyddi arweinyddiaeth (Pennaeth Cynorthwyol, Dirprwy Bennaeth neu Bennaeth) neu waith rhanbarthol pellach gydag ERW. Mae Astudiaeth Achos 2 yn tynnu sylw at y ffaith fod rhagolygon cyflogaeth y cyfranogwr wedi cynyddu yn dilyn ei secondiad i ERW, gan arwain at gael ei benodi i swydd arweinyddiaeth fel Pennaeth Cynorthwyol. Mae'r astudiaethau achos yn amlinellu'r sgiliau a'r profiad a enillwyd yn ERW o ran:

- Amrediad o amgylcheddau ysgol, Timau Arwain Ysgolion ac adrannau Saesneg
- Cefnogi a herio ysgolion ac adrannau
- Arweinyddiaeth strategol a rhanbarthol
- Cyflwyno a chyflawni ar gyfer amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd ar lefel genedlaethol
- Gweithredu fel rheolwr llinell
- Cydnabod yr heriau sy'n wynebu ysgolion Uwchradd
- Deall materion ysgol cyfan
- Llywio gwelliannau ysgol a gwybodaeth am fentrau

- Deall rolau uwch arweinwyr o ran gwella ysgolion
- Cyfathrebu ag amrywiaeth o weithwyr proffesiynol addysgol a gweithio ochr yn ochr â nhw er mwyn meithrin perthynas waith gref ac effeithiol
- Gweithio mewn partneriaeth
- Datblygu cysylltiadau proffesiynol
- Trefnu a darparu hyfforddiant
- Datblygu gwybodaeth ac arbenigedd manwl am fanylebau newydd TGAU
- Gwaith ysgol-i-ysgol
- Categoriaddio adrannau a'r defnydd o ddata cenedlaethol
- Arsylwi gwersi, craffu ar waith, cynnal adolygiadau ac ymweld ag ysgolion
- Darparu her a gweithredu cymorth pwrpasol
- Datblygu addysgu a dysgu mewn grwpiau o dri a'r dull astudio gwersi
- Modelu gwersi rhagorol
- Cynhyrchu adnoddau, cynlluniau gwaith a deunyddiau asesu ar gyfer eu defnyddio ar draws y rhanbarth gyfan
- Ysgrifennu adroddiadau
- Rhedeg gweithgorau